**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**28ain Gorffennaf 2008**

# DEDDF DYNLADDIAD CORFFOREDIG

**Adroddiad gan Paul Claydon,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Sicrwydd Gweithredol)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I roi gwybodaeth i Aelodau ar Ddeddf Dynladdiad a Lladdiad Corfforedig 2007.

## Cyflwyniad

**2.** Ers yr achos troseddol oedd yn gysylltiedig â thrychineb yr Herald of Free Enterprise yn Zeebrugge yn 1987, cafwyd galw am ddeddfau newydd drosodd a throsodd i ddwyn collfarnau yn erbyn corfforaethau dro ar ôl tro. Er bod yr achos wedi cwympo, fe osododd gynsail i ddynladdiad corfforedig fod yn dderbyniadwy'n gyfreithiol yn y Llys.

**3.** Fe dderbyniodd y Ddeddf Dynladdiad a Lladdiad Corfforedig Gydsyniad Brenhinol ar 26ain Gorffennaf 2007. Daeth y Ddeddf i rym ar 6ed Ebrill 2008. Mae'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth ar gyfer trosedd newydd o Ddynladdiad Corfforedig (Lladdiad Corfforedig yn yr Alban).

**4.** Mynychodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Claydon seminar wybodaeth ar 18fed Ebrill 2008 oedd wedi ei noddi gan

Gymdeithas Llywodraeth Leol a'i gynnal gan Brifysgol Warwig i gynghori awdurdodau lleol ar strategaethau cydymffurfio parthed y Ddeddf hon.

**Sail y Drosedd Newydd**

**5.** Mae'r drosedd yn adeiladu ar agweddau allweddol y drosedd cyfraith gwlad bresennol o esgeulustod dybryd yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, ond yn gwneud corfforaethau, gan gynnwys awdurdodau lleol ac amrediad o gyrff y Goron, yn atebol am y ffordd mae gweithgareddau'r sefydliad yn cael eu rhedeg neu fel oeddynt yn cael eu rhedeg gan ei uwch reolwyr.

**6.** Mae'r drosedd yn cael ei chyflawni lle, mewn amgylchiadau penodol, fod gan y sefydliad ddyletswydd i gymryd gofal rhesymol i ddiogelwch person a'r ffordd mae gweithgareddau'r sefydliad wedi cael eu rheoli neu drefnu gan uwch reolwyr yn torri'r ddyletswydd yma ac yn achosi marwolaeth y person.

**7.** Mae torri'r ddyletswydd gofal yn "ddifrifol" os fydd yr ymddygiad honedig yn syrthio'n is na be ellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan y sefydliad yn yr amgylchiadau.

**8.** Mae'r ddyletswydd yma'n cynnwys archwiliad gan reithgor o rwymedigaethau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 ac unrhyw ganllaw perthnasol, megis "Rheoli Iechyd a Diogelwch yn Llwyddiannus" (HSG65).

**9.** Mae "Uwch Reolwyr" wedi ei ddiffinio'n fwy eang nag a fyddai o dan yr athrawiaeth cyfraith gwlad, ond mae ganddo'r un effaith o gyfyngu'r rhai fyddai eu camymddygiad yn gallu achosi i'r sefydliad fod yn atebol am ddynladdiad.

**10.** Mae rheidrwydd ar y sefydliad i gynnig dyletswydd gofal i'r dioddefwr fel y diffinnir yn adran 2 o'r Ddeddf ac a restrir o dan

gyfraith esgeulustod e.e. fel cyflogwr, meddiannwr eiddo, cyflenwr o nwyddau a gwasanaethau, ac ati.

**11.** Nid yw unrhyw ddyletswydd gofal sy'n rheidrwydd ar awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â phenderfyniad am faterion polisi cyhoeddus (gan gynnwys yn arbennig y dyraniad o adnoddau cyhoeddus neu bwyso diddordebau cyhoeddus yn arbennig) yn "ddyletswydd gofal perthnasol".

**Cyd-destun**

**12.** Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar strwythurau a systemau corfforedig ac ar arferion a pholisïau hefyd. Mae hyn yn rhoi'r rheolaeth o weithgaredd i gyd-destun rhwymedigaethau'r sefydliad o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ac, i'r graddau oedd y sefydliad torri'r rhain a'r risg i fywyd oedd hyn wedi golygu.

**13.** Mae Deddf Dynladdiad a Lladdiad Corfforedig 2007 wedi cynnal s37 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a heb ei ddiwygio. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig y potensial sylweddol o ddefnyddio mwy o'r disgresiwn erlyniad wrth ymarfer y pŵer yma. Mae Adran 37 yn nodi lle mae trosedd o dan unrhyw ddarpariaethau statudol perthnasol wedi cael ei gyflawni gan gorff corfforedig "gyda chaniatâd neu oddefiad, neu'n briodoladwy i unrhyw esgeulustod ar ran, unrhyw gyfarwyddwr, uwch reolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg o'r corff corfforedig neu berson oedd yn honni gweithredu yn y fath gapasiti, byddai ef yn ogystal â'r corff corfforedig yn euog o'r drosedd ac yn atebol am achos yn eu herbyn a'u cosbi'n unol â hynny".

**Argymhellion**

**14.** Fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth mewn cysylltiad â'r Ddeddf Dynladdiad a Lladdiad corfforedig 2007.